# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

## Dydd Mawrth 15 Mehefin 2021, 12.30-13.30pm

## Cyfarfod ar-lein

## Nodyn o'r Cyfarfod

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Joshua Hayman, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Carys Henry, Age Cymru Trustee |
| Peredur Owen Griffiths AS | Rhys Jackson, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Dr Altaf Hussain AS | Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) |
| Joel James AS | Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Sioned Williams AS | Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Huw Bendall, Fforwm Ymgynghorol Age Cymru | Michael Phillips, Age Cymru |
| Yr Athro Fonesig June Clark, Prifysgol Abertawe | Roiyah Saltus, Prifysgol De Cymru |
| Lauren Cooper, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro; Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru |
| Lee Gonzalez | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru; Prifysgol Aberystwyth |
| Stephanie Griffith, Gofal Cymdeithasol Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Delyth Jewell AS | Vicki Howells AS |
| Janet Finch-Saunders AS | Rachael Nicholson, Hourglass Cymru |

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

Ethol y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio: Enwebwyd ac etholwyd Mike Hedges AS yn Gadeirydd.

Cyflwynodd Ceri Cryer Age Cymru ganfyddiadau'r arolwg 'Profiadau pobl 50 oed neu hŷn yng Nghymru yn ystod cyfnod clo Covid-19 dros y gaeaf'. Cynhaliwyd yr arolwg gan Age Cymru, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cymru Egnïol, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru a Fforwm Pensiynwyr Cymru yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2021.

Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno yn y cyflwyniad Powerpoint sydd ynghlwm.

**Trafodaeth: beth, ym marn y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio, yw'r blaenoriaethau sy'n deillio o ganfyddiadau'r arolwg?**

Lynda Wallis – mae'r canfyddiadau'n debyg iawn i'r disgwyl. Mae llawer o bobl hŷn yn dal i fod yn nerfus ynglŷn â mentro allan, nid yw clybiau cinio wedi agor eto. Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, yn hytrach na chael un cyfarfod mawr mae rhai grwpiau wedi gorfod trefnu nifer o gyfarfodydd llai, ac mae hynny'n costio mwy.

Mae hi'n ddiogel mentro allan, er bod rhai pobl yn anwybyddu'r saethau ar y strydoedd – mae rhai pobl yn fwy diofal nag eraill. Yn awr, rhaid inni feithrin hyder pobl hŷn.

Steven Milsom – Mae'r arolwg yn waith gwych. Nid ydym wedi dod trwy'r pandemig eto; mae yna fwy i ddod, felly rhaid inni barhau i geisio barn pobl hŷn a ddylai gael lle blaenllaw wrth ymgysylltu. Hefyd, rydym angen blaenoriaethau clir ar gyfer y GIG er mwyn i'r gwasanaeth allu delio â phobl hŷn sydd ar restrau aros maith. Mae angen ystyried barn pobl oedrannus iawn.

Ond roedd yna rai pethau cadarnhaol, yn enwedig y cymorth a gawsom gan wirfoddolwyr iau. Beth am ddenu eu diddordeb mewn pobl hŷn.

Hefyd, ceir pryderon ynglŷn â'r effaith ar gyflogaeth. Darganfu'r Ganolfan Heneiddio'n Well fod pobl hŷn yn ei chael hi'n anos dod o hyd i swyddi, ac fe allai hyn arwain at gynyddu tlodi ymhlith pensiynwyr.

John Williams – Mae'r adroddiad hwn yn hynod werthfawr. Mae'r her ar ôl Covid-19 yr un mor fawr â'r pandemig ei hun. Mae nifer o broblemau cudd i'w cael, fel mynediad at ofal iechyd a cham-drin pobl hŷn. Dylech gael cynnig trafodaeth wyneb yn wyneb gyda'ch meddyg teulu os oes angen. Mae gwasanaethau ysbytai yma yng Ngheredigion wedi'u rhanbartholi erbyn hyn, felly mae rhai pobl yn Aberystwyth yn gorfod teithio i Hwlffordd i gael rhai triniaethau. Mae rhai pobl hŷn wedi bod yn hunanwarchod ers 18 mis, ac yn awr mae arnynt ofn mynd allan. Mae'r heriau'n ddyrys ac yn gymhleth.

Sioned Williams AS – Ar ôl y cyfnod clo, bydd angen gwneud rhai pethau'n wahanol. Nid yw/nid oedd pobl oedrannus iawn yn gyrru, ac yn awr ni allant gael lifft. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau bysiau wedi'u cwtogi, ond mae angen trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon er mwyn cynnig cyfleoedd i gymdeithasu.

Melanie Minty – Nid ydym wedi gweld y gwaethaf o ran darparu gofal, oherwydd mae yna ddiffyg capasiti yn y system. Mae nifer o ofalwyr taledig yn ymddeol yn gynnar, ond mae'r galw'n cynyddu.

Altaf Hussain AS – Mae gan bobl yr hawl i fyw heb boen. Mae Covid yn bodoli, ac felly rhaid inni ddysgu byw gydag ef. Dylai'r bobl hynny sydd ar restrau aros maith ffonio'u meddyg teulu. Dylid ystyried cleifion yn eu cyfanrwydd yn hytrach na chanolbwyntio ar un o'u symptomau.

Mae parhad gofal yn bwysig, yn ogystal â phwy a fydd yn eich trin. Mae pobl hŷn angen mynediad at holl wasanaethau'r GIG.

Peredur Owen Griffiths AS – Yr hyn a'm synnodd i oedd gallu pobl i newid. Mae angen inni gofio'r ffyrdd gwahanol hyn o wneud pethau.

Mike Hedges AS – Mae yna gynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n gofalu am bobl oedrannus iawn. Gan ein bod yn byw'n hŷn, rydym yn dod yn ofalwyr ein hunain. Bydd Ceri yn llunio rhestr o'r blaenoriaethau a nodir yn yr arolwg a bydd yn rhannu'r rhestr hon gyda ni fel y gallwn eu mabwysiadu fel blaenoriaethau ac ysgrifennu wedyn at y Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog dros Bobl Hŷn.

**Fformat a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol**

Mike Hedges AS – Am y tro, byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd ar-lein.

Ceri Cryer – Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 19 Hydref 2021. Y pwnc y bwriedir ei drafod yw ariannu gofal cymdeithasol.

Steve Milsom – Rwy'n croesawu'r arfer o ganolbwyntio ar un mater er mwyn inni allu rhoi sylw manwl iddo. Bydd y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio gan Lywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Altaf Hussein – Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd i'r grŵp hwn.

Lynda Wallis – Efallai y gallem gael trafodaeth yn y dyfodol yn ymwneud â cham-drin pobl hŷn.

John Williams – Gallem ystyried Deddf 2014. Pa mor effeithiol yw'r mesurau? Pa mor effeithiol yw'r trefniadau atgyfeirio? A ydynt yn arwain at atgyfeiriadau?

Lluniwyd y nodyn hwn gan Michael Phillips, Age Cymru.